

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|----------------------------|--|
| Enw / Name: | Meilyr Rowlands |
| Rôl / Role: | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| E-bost / Email: | prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| Rhif Ffôn / Tel No: | 02920 446 446 |
| Dyddiad / Date: | 25 Tachwedd 2019 |
| Pwnc / Subject: | Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 |

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cyflwyniad

Mae Estyn yn cefnogi'n llawn y cynnig i ymestyn y cylch arolygu saith mlynedd presennol (2016-23) i gylch wyth mlynedd (2016-24) er mwyn galluogi atal arolygiadau yn rhannol ar gyfer ysgolion meithrin, ysgolion a gynhelir ac UC'Dau yn ystod 2020-21.

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno â chreu Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 a fydd yn dod i rym ar 1 Medi 2020 er mwyn galluogi atal yn rhannol yr arolygiadau ysgol i'w cynnal yn 2020–2021?

| | | | | | |
|---------------|-------------------------------------|------------------|--------------------------|--|--------------------------|
| Cytuno | <input checked="" type="checkbox"/> | Anghytuno | <input type="checkbox"/> | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | <input type="checkbox"/> |
|---------------|-------------------------------------|------------------|--------------------------|--|--------------------------|

Sylwadau ategol

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig i ymestyn y cylch arolygu saith mlynedd presennol (2016-23) i gylch wyth mlynedd (2016-24) er mwyn galluogi atal arolygiadau yn rhannol ar gyfer ysgolion meithrin, ysgolion a gynhelir ac UC'Dau yn ystod 2020-21. Roedd y cam hwn yn argymhelliad allweddol yn adroddiad Yr Athro Graham Donaldson, *Arolygiaeth Dysgu*, y gwnaethom dderbyn ei argymhellion yn llawn.

Un o nodau'r cwricwlwm newydd i Gymru yw galluogi ysgolion i ehangu dysgu trwy ddulliau arloesol a chreadigol. Mae ei gyflwyno yn achosi cryn heriau i ysgolion o ran amser paratoi, cynhyrchu adnoddau a dysgu proffesiynol. Er mwyn rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus, mae angen i arweinwyr ysgol ac ymarferwyr fagu hyder i fod yn hyblyg ac arloesol.

Credwn y bydd atal gweithgarwch arolygu yn rhannol yn ystod 2020-21 yn cynnig y potensial i gael effaith gadarnhaol ar gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Bydd ysgolion yn gallu canolbwyntio'n llawn ar y dasg i baratoi ar gyfer eu cwricwlwm, a'i ddatblygu, a byddai'r cyfnod atal yn rhoi amser a chyfle i Estyn gefnogi ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu cwricwlwm newydd, er enghraifft trwy ymweliadau ymgysylltu, fel rhan o strategaeth genedlaethol eang o ran cydweithio a dysgu proffesiynol.

Nododd ymgynghoriad cyhoeddus¹ Estyn ei hun gefnogaeth gref i'r cynigion hyn, ac roedd 93% yn cytuno y dylid atal arolygiadau ar gyfer ysgolion ac UC'Dau yn ystod 2020-21.

Yn ystod y cyfnod arfaethedig i atal arolygiadau yn rhannol, bydd Estyn yn parhau i fonitro unrhyw ysgolion sy'n achosi pryder, yn enwedig y rhai mewn categori statudol.

Cwestiwn 2 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai creu Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

¹ https://www.estyn.llyw.cymru/dogfen/ymatebion-i%E2%80%99r-ymgyngoriad-ar-flwyddyn-bontio-arfaethedig-estyn-yn-2020%E2%80%932021-blwyddyn?_ga=2.93189469.1934789723.1587371440-233290206.1543926556

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Mae Estyn yn credu y bydd rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn galluogi ysgolion i gryfhau datblygiad medrau Cymraeg disgyblion trwy gyflwyno'r Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Yn ystod y cyfnod atal arolygiadau yn rhannol, bydd Estyn yn parhau i ddilyn y dull a amlinellir yn ein Polisi Iaith Gymraeg² ar draws ein holl waith.

Cwestiwn 3 – Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i greu Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020, er mwyn:

- i) cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) peidio â chael unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Nid yw Estyn yn credu bod angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r cynnig i gynyddu ei effaith gadarnhaol bosibl ar ddefnyddio'r Gymraeg. Nid ydym yn credu y bydd y cynnig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Cwestiwn 4 – Fe wnaethom ofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.

Mae atebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddiennw, ticiwch yma:



² <https://www.estyn.gov.wales/document/welsh-language-policy>